

Gallech chi ddefnyddio'r cwestiynau yma, sydd wedi cael eu paratoi gan dîm Sally, i'ch helpu i drafod llesiant gydag arweinwyr uwch yn eich ysgolion. Hefyd gallwch chi ddewis eich cwestiynau eich hun i ofyn.

1. Beth mae llesiant yn golygu i chi?
2. Beth yw'r peth gorau mae eich ysgol yn gwneud i sicrhau llesiant y disgyblion?
3. Ydy pob disgybl yn eich ysgol yn cael cyfle i rannu eu barn ar lesiant disgyblion?
4. Oes gan eich ysgol athro arweiniol ar gyfer llesiant?
5. Oes gan eich ysgol lywodraethwr* arweiniol ar gyfer llesiant?

Beth yw llywodraethwr?

Mae corff llywodraethu gan bob ysgol, a'u gwaith nhw yw gwneud penderfyniadau am sut mae'r ysgol yn cael ei rhedeg.

Maen nhw'n penderfynu sut mae'r ysgol yn gwario arian, ac mae angen iddyn nhw wneud yn siŵr bod polisiau'r ysgol yn helpu pob plentyn i ddysgu, ac i fod yn iach ac yn ddiogel.

